



Agored 2025

08/03/25 - 04/05/25

GOFOD

Thema arddangosfa Agored blwyddyn yma yw 'Gofod', bydd hyn yn cyd-fynd ac arddangosfa o waith Susan Williams-Ellis yn y parlwr. Rydych yn rhydd i ddehongli'r thema yn pa bynneg ffordd y mynnwch.

Gwobrau

Gwobr y bobl - Cyhoeddi 25/04/25

£500

Mae gwobr y bobl yn mynd i'r artist sy'n ennill y mwyaf o bleidleisiau gan y cyhoedd yn ystod cyfnod yr arddangosfa

Artist sy'n dod ir amlwg– Cyhoeddi 08/03/25

Yn cynnwys:

1. Arddangosfa yn mis Medi yn y flwyddyn dilynol, 2026
2. Cyllid hyd at £500 tuag at paratoi ee. Fframio, deunyddiau, danfon y gwaith ayyb
3. Cefnogaeth tuag at yr arddangosfa
4. Hysbysebu
5. Lansiad

Diffinir artist yn dod ir amlwg fel artist heb fwy na 5 mlynedd o brofiad o arddangos Gwaith mewn orielau. Mae'n agored i artistiaid o bob oedran. Os hoffech gael eich ystyried ticiwch y bocs

Manylebau

Cewch gyflwyno dau darn yn unig
Tâl mynediad £10 x 1 Darn
£15 x 2 Darnau

2D

Croeso i bob cyfrwng. Nid oes cyfyngder o ran maint, ond mae lle yn gyfyngedig a chystadleuaeth y frwd, felly mae lleoedd ar gyfer darnau mawr iawn yn brin.

3D

Tu mewn - dim mwy na 1m², cymerwch maint y drysau i ystyriaeth os gwelwch yn dda

Tu allan - Does dim cyfyngiadau maint

Fideo

Gellir cyflwyno hyd at ddau ddarn fideo heb fod dim mwy na deg munud o hyd yr un yn eich cais.

Dyddiadau i'w cofio

Dyddiad cau i gyflwyno gwaith	12/01/25
Ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu erbyn	02/02/25
Danfôn y Gwaith	18/02/25-21/02/25
Lansiad yr arddangosfa a chyhoeddi gwobr artist sy'n dod i'r amlwg	08/03/25
Hysbysu enillydd gwobr y bobl	25/04/25
Diwedd yr Arddangosfa	04/05/25
Casglu'r gwaith	05/05/25 – 09/5/25

Ticiwch y Blwch isod os nad ydych am gael eich ychwanegu at y rhestr bostio (wnawn ni ddim rhanu eich manylion ac unrhyw un arall).

Ticiwch y blwch isod os nad ydych am i'ch gwaith celf gael ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebu a hyrwyddo arddangosfa agored 2025

Arddangosfa Agored 2025 - Ffurflen Gais

Enw	
Ebost	
Ffôn	

Gwefan	
Cyfeiriad	

Teitl 1			
Cyfrwng			
Maint yn cynnwys ffrâm	Uchder: cm	Lled: cm	Dyfnder: cm
Fideo: hyd y ffilm:	munudau	eiliadau	
Prîs yn cynnwys comisiwn:			
Datganiad byr am eich darn:			

Teitl 2			
Cyfrwng			
Maint yn cynnwys ffrâm	Uchder: cm	Lled: cm	Dyfnder: cm
Fideo: hyd y ffilm:	munudau	eiliadau	
Prîs yn cynnwys comisiwn:			
Datganiad byr am eich darn:			

Telerau ac amodau cyflwyno cais

Comisiwn, Gwerthiant ac Yswiriant

Bydd Oriel Brondanw yn codi 35% comisiwn ar bob darn a werthir yn yr arddangosfa. Cyfrifoldeb yr artist yw yswirio eu gwaith eu hunain.

Nid oes rhaid i bob gwaith a ddangosir fod ar werth. Noder DAW (dim ar werth) yn y blwch os felly

Sut i Ymgeisio

- Gyrrwch ddelweddau JPEG o safon uchel o'ch cynigion, ynghyd â'r manylion sydd ar dudalen 1 a 2 y ffurflen hon at i: sian@susanwilliamsellis.org
- Nodwch '**Cais Arddangosfa Agored 2025**' yn llinell destun eich gohebiaeth.
- Rhaid i'r enw ar ffeil y JPEG fod yr un enw ag a geir ar y ffurflen gais:
- Mae croeso i chi yrru'ch JPEGs inni drwy WeTransfer neu Dropbox ond rhaid cadw at yr amodau enwi uchod.
- Ffeiliau fideo: cewch gynnwys hyd at dwy ffeil fideo heb fod dim mwy na deg munud o hyd yr un yn eich cais.

Trefn y dewis

Adolygir y ceisiadau gan banel o ddetholwyr. Os bydd eich cais yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o hynny. Fe'ch hysbysir hefyd os na fu eich cais yn llwyddiannus ond ni all Plas Brondanw drafod y rhesymau pam na thrafod penderfyniadau'r panel dethol.

Dangos Gwaith yn ystod yr arddangosfa:

Dyddiadau'r arddangosfa yw'r 8^{fed} o Fawrth 2025 hyd at 4^{ydd} Mai 2025. Mae'n rhaid i waith a gynigir ar gyfer yr arddangosfa fod ar gael am holl gyfnod yr arddangosfa.

Danfôn a Chasglu'r Gwaith

Rhaid i'r Gwaith/Gweithiau fod yn barod i'w gosod yn Plas Brondanw ar y dyddiad y cytunwyd arno. Bydd angen dad-osod y Gwaith a'i gasglu ar y dyddiad(au) penoledig.

Cludo'r gwaith i / o Plas Brondanw

Yr artist sy'n gyfrifol am bacio'r gwaith ac am holl gostau a threfniadau cludo'r Gwaith i ac o'r Oriol.

Cyflwyno'r gwaith

- Gofynnwn i'r holl waith a dderbyniwyd i'r arddangosfa, mewn unrhyw gyfrwng, gael ei gyflwyno mewn modd proffesiynol.
- Gofynnwn hefyd am osod 'D-Rings' – ar bob gwaith sydd wedi ei fframio, a hynny wedi eu lleoli 10cm o frig y ffrâm ar y ddwy ochr, i sicrhau bod gwaith yn cael ei grogi'n ddiogel.
- Os yw'r gwaith ar ôl ei dderbyn, yn ôl barn Oriol Brondanw, yn anaddas i'w arddangos am unrhyw reswm, ceidw Plas Brondanw yr hawl i wrthod ei ddangos a hynny heb reidrwydd i gynnig rheswm.

Dulliau Talu

Ar-lein [BACS]

Defnyddiwch 'YSWEF' ym mlwch y talai

Cyfeirnod: 'Enw'r Ymgeisydd + PB Agored 2025
Cyfrif: YSWEF [Ymddiriedolaeth Susan Williams Ellis Foundation]
Côd didoli: 40-37-13
Rhif y Cyfrif: 02010100
Banc: HSBC, 62 High Street, Porthmadog LL49 9LN
Siec: YSWEF [Ymddiriedolaeth Susan Williams Ellis Foundation]
Derbynnir arian sychion neu daliad cerdyn ar y safle

Ymholiadau:

Plas Brondanw, Llanfrothen, Penrhyndeudraeth LL48 6SW
sian@susanwilliamsellis.org / 01766 770590 / www.plasbrondanw.org
Ymddiriedolaeth Susan Williams-Ellis Foundation: Rhif Elusen/Charity number: 115823